# Heddwch

cylchgrawn CND Cymru

25c




# 50 mlynedd — a'n dal i brofi

FANGATAUFA
MURORO
R
HIR
NAGASA
SEMIPALATINSK
HANFORD
SELLAFIELD
TRAWSFYNYDD
NEVADA
ALAMOGORDO
CHERNOBYL
ENEWETAK
ST.GEORGE
MARSHALL ISLANDS
MARALINGA
MONTE BELLO
KIRITIMATI
JOHNSTON ISLAND
CARLSBAD
SOUTH ATLANTIC
ALDERMASTON
LOP NOR
BERKLEY
DRIGG
NOVAYA ZEMLYA
HARWELL
RONGELAP
EBYE ISLAND
KYSHTYM
SIZEWELL


*Y TU FEWN*

HIROSHIMA — EIN PECHOD GWREIDDIOL NIWCLEAR
PROFI NIWCLEAR — BETH YN UNION YDYW?
PROFION NIWCLEAR FFRAINC — CREWCH STWR!
O GYMRU I DDIODDEFWYR CHERNOBYL
NEWYDDION O FASLANE
*a mwy . . .*


Mae CND Cymru yn gweithio dros heddwch a diarfogi rhyngwladol a byd lle mae'r adnoddau anferth a ddefnyddir ar hyn o bryd i ddibenion milwrol wedi eu hailgyfeirio i ateb gwir anghenion y ddynolryw


*Produced by Pia 01222 222782.*

## CYSWLLT CND CYMRU

Y SIOP HEDDWCH,
56 MACKINTOSH PLACE, ROATH,

YSGRIFENNYDD CYFFREDINOL
**Jill Stallard.** Nantgaredig, Cynghordy, Llanymddyfri, Dyfed SA20 OLR (01550) 750260

**Mwy o wybodaeth, syniadau neu gynigion o gymorth? Cysylltwch â'ch Is-gadeirydd CND Cymru agosaf, os gwelwch yn dda:**

CANOLBARTH
**Olwen Davies** (01970) 611994
**Rod Stallard** (015505) 260

DE CYMRU
**Ray Davies** (01222) 889514

GOGLEDD CYMRU
**Dave Andrews** (01978) 310491

AELODAETH
**Carol Handcock** (01633) 881741

MUDIADAU CYSYLLTIEDIG
**Rhoda Jones** (01766) 762739

MASNACHU
**Jan Henderson** (01792) 830330

TREASURER
**Jean Bryant**
16 Ty'n y Cymer Close,
Y Porth, Rhondda CF39 9DF

## Newyddion Gweithredu Heddwch

- Bydd y rhifyn nesaf o Newyddion Gweithredu Heddwch yn ymddangos ym mis Rhagfyr 1995
- Danfoner cyfraniadau at Jill Stallard, Nantgaredig, Cynghordy, Llanymddyfri, Dyfed SA20 0LR (05505) 750260
- Croesewir cyfraniadau ar ddisg cyfrifiadur. Cysyllter â Jill neu Mike Southern (01222 222782) am fanylion

## Cri o'r Galon

Mae hwn yn rhifyn anferth o Heddwch – gan i'r haf crasboeth yn llawn bygythiadau profion niwclear a'r ambiwlans i Chernobyl ei gwneud hi'n anodd cadw at ddyddiadau cau a pheri i'r rhifyn hwn ymddangos yn hwyr.

Mae arnom angen help gyda chynhyrchu Heddwch. Os carech helpu i'w gynhyrchu – er enghraifft, drwy deipio copi ar ddisg – neu hyd yn oed gymryd yr awennau golygyddol, byddai Jill Stallard a Mike Southern yn dwli clywed gennych!

## Swyddogion CND Cymru 1995-6

Yn ein cyfarfod Blynyddol ar 17eg Gorffennaf, etholwyd y swyddogion a ganlyn:

Cadeirydd: David Morris ASE

Trysorydd: Jean Bryant

Is-Gadeiryddion: Olwen Davies, Dave Andrews, Ray Davies, a Rod Stallard

Diolch o galon i'r swyddogion am eu holl waith caled yn ystod y flwyddyn flaenorol.

**Rwyf eisiau ymuno â'r Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwclear**

Enw ______________________________

Cyfeiriad ______________________________

______________________________

______________________________ Côd Post ________

Ffôn ______________________ Amgaeaf siec/GP am ______

yn daladwy i CND Cymru. Cwpl £15; Oedolyn £10; Digyflog, pensiynwyr, ieuenctid £3. Dychweler i CND Cymru, Aelodaeth, 3 Millbrook Court, Magwyr, Gwent NP6 3JN.

## Mynd yma, acw, yn ôl ac ymlaen, dros Fôr Iwerddon

Ymddengys bod y Weinyddiaeth Amddiffyn yn ystyried cludo eu hergydion niwclear i fyny drwy Fôr Iwerddon o Portsmouth i Coulport, ger Glasgow. Ar un ystyr mae hyn yn fuddugoliaeth i'r Mudiad Heddwch a'r Niwc-wylwyr sydd wedi erlid y confois ar y ffyrdd i'r fath raddau nes gorfodi'r Weinyddiaeth i newid tacteg.

Os defnyddir llwybr Môr Iwerddon, yna gallai hon fod yn daith ddwy-ffordd reolaidd, o leiaf unwaith y mis, i fyny ac i lawr i Fôr Iwerddon. Ergydion "ffres" i fyny i Coulport a rhai "stâl" i Burghfield ac Aldermaston drwy Portsmouth.

Gofynnodd CND Cymru i ASau Plaid Cymru Cynog Dafis a Ieuan Wyn Jones i ddarganfod mwy am y llwythi marwol hyn. Maent yn dal i ddisgwyl am atebion boddhaol. Mae CND Iwerddon wedi cysylltu ag adrannau Llywodraeth Iwreddon a'r wrth blaid ond ni chafwyd ateb iawn hyd yma.

Os ydych yn byw mewn etholaeth sy'n ffinio â Môr Iwerddon, gofynnwch i'r AS am fwy o wybodaeth – a rhowch wybod i CND Cymru! Os oes gan unrhywun ddefnydd cwch, dewch i gysylltiad â ni. os gwelwch yn dda.

## Bruce Watkins

Bu farw Bruce ar Awst 20fed. Gwêl y Mudiad Heddwch ei golli'n arw. Y fath gydweithiwr dewr a chalonogol.

Athro oedd Bruce a cherflunydd coed adnabyddus yn ei fro. Roedd ganddo gymaint o gyfeillion, a pharchai bawb. Ar weithredoedd uniongyrchol byddai Bruce bob amser yn siarad â'r heddlu, gan sigo'r awdurdodau a'u gwestiynau tawel. Byddai bod amser yn trin plant fel bodau cydradd ac roedd yn llawn hwyl. Yn 70 mlwydd oed, ymfalchiai yn y ffaith ei fod wedi gwneud naid "bungee" – ac roedd am wneud hynny eto!

Yn Gristion o heddychwr ecwmenaidd, gweithiasai dros heddwch yn gyson er penderfynu mynd yn wrthwynebydd cydwybodol yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Yr oedd yn weithgar dros ben, yn enwedig gyda Grŵp Gwrth-Niwclear Llandeilo, CND Cristnogol, Cymdeithas y Cymod, ymgyrchoedd yn Molesworth, Ymgyrch Byncar Caerfyrddin, a gyda CND Cymru. Pan oedd yn Rali Hydref 29ain yn Sgwâr Trafalgar y llynedd, sylwai fel yr oedd y nifer o'i genhedlaeth ef yn y Mudiad Heddwch yn edwinio gydag amser – yn awr, bydd llu o bobl ar raliau eraill yn edrych am Bruce a'i het hela ceirw. Byddai Bruce yn dweud yn awr nad oes diben tristáu, ond y dylem fwrw ymlaen ar y daith dros Heddwch – efallai bod y ffordd yn un anodd, ond mae'r cwmni'n ddifyr ac yr ydym yn mynd yn y cyfeiriad iawn.

*Jill Stallard*

## Colin Sweet

Ymgynullodd rhyw hanner cant o bobl mewn pentref Cymreig anghysbell ar Orffennaf y cyntaf i gofio Colin Sweet, a fu farw ar Fehefin y 5ed. Roeddynt yn cynnwys dau AS, aelodau o'r Blaid Lafur, aelodau CND, teulu a chyfeillion ynghyd â nifer o bobl leol a oedd â pharch mawr iddo. Cyhoeddodd y Guardian a'r Independent deyrngedau hael iddo, gan gofio ei waith arloesol yn datgelu ffolineb ynni niwclear. Bydd ymgyrchwyr hŷn dros heddwch yn cofio hefyd y rhan a chwaraeodd yn y 50au a'r 60au yn yr ymgyrchoedd mawr dros nifer o achosion heddychlon, megis gwrthwynebu ail-arfogi'r Almaen, llong danfor niwclear Polaris, a Rhyfel Fietnam. Erys ei ysbrydoliaeth gyda ni.

*Pat Allen.*

## RAF Y Fali, Awyrennau Rhyfel Hawk, ac Indonesia

Mae RAF Y Fali, Ynys Môn yn hyfforddi peilotiaid llawer o'r gwledydd y gwertha Prydain awyrennau milwrol iddynt. Cafodd cwmni BAE, sydd yn gwneuthur awyrennau Hawk, drwydded allforio i werthu i Indonesia, sydd yn disgwyl yr awyrennau erbyn mis Ebrill 1996.

Yn ôl Swyddog Cyswllt Cymuned RAF Y Fali, rhan o'r pecyn gwerthu i Indonesia yw'r bwriad o hyfforddi peilotiaid yn Y Fali, unig Ysgol Hyfforddi Jetiau Cyflym Prydain.

Defnyddiwyd awyrennau Hawk eisoes yn Indonesia i ormesu Dwyrain Timor a oresgynwyd gan Indonesia. Mae'r goresgyniad hwnnw wedi para 20 mlynedd; yn ystod y cyfnod hwnnw, lladdwyd 200,000 o bobl Dwyrain Timor, traean o'i phoblogaeth.

Trefnir dau gyfarfod cyhoeddus ganol mis Hydref yn Llangefni a Phorthmadog. Mae Ymgyrch Hawliau Dynol Indonesia a'r Ymgyrch yn erbyn y Fasnach Arfau yn danfon siaradwyr. Noddir y cyfarfodydd hyn gan CND Cymru, Cymdeithas y Cymod, Cymdeithas yr Iaith a changen Dwyryd Plaid Cymru.

Bydd y cyfnewid gwybodaeth hwn yn arwain at rali yn RAF Y Fali ddydd Sadwrn 11 Tachwedd a Lobi Seneddol ddydd Iau 7 Rhagfyr.

- *Am wybodaeth bellach, cysyllter ag Emlyn Richards (01407) 710386 neu Awel Irene (01766) 771100*

## Ail Ddirprwyaeth o Gymru i Nicaragua


Ym mis Chwefror 1996, mae Ymgyrch Cydgadernid Cymru Nicaragua yn danfon ei hail ddirprwyaeth i Nicaragua. Ymwelodd y gyntaf, ym mis Chwefror 1994, â phrosiectau yn Managua, y brifddinas, a threuliwyd wythnos ar arfordir Môr Iwerydd Nicaragua. Ymwelwyd â grwpiau cymuned, arwyliwyd etholiadau rhanbarthol, a chyfrannwyd £1,000 i gyhoeddi straeon traddodiadol arfordir Môr Iwerydd,

O ganlyniad i'r ymweliad hwn, treuliodd dau ymwelydd o arfordir Môr Iwerydd bythefnos yng Nghymru gan gwrdd â phleidiau gwleidyddol, undebau llafur, mudiadau iaith a menywod, a ffurfio cysylltiadau ag ysgolion a cholegau.

Bydd yr ail ddirprwyaeth yn adeiladu ar sail y cysylltiadau rhwng Cymru a Nicaragua.

- *Os carech fwy o wybodaeth am y ddirprwyaeth, neu os hoffech i rywun o NSC ddod i siarad am y sefyllfa ddiweddaraf yn Nicaragua wrth gangen leol eich plaid neu undeb llafur, cyfarfod eglwys neu grŵp heddwch, cysyllter â Ben Gregory, Ymgyrch Cydgadernid Cymru Nicaragua, 4 Stryd Werfa, Y Rhath, Caerdydd CF2 5EW.*

# Da Bo, Breudeth, Da Bo



Fel gyda gwersylloedd milwrol eraill yr Unol Daleithau ym Mhrydain, nid oedd unrhyw arwydd ar y briffordd i ddynodi bod Sir Benfro wedi ei meddiannu gan yr UD.


Mae Breudeth wedi bod yn rhan o wyliadwraeth tanfor a morol yr UD ar Ogledd Môr Iwerydd ers 31 mlynedd, a gychwynnodd ym 1954 fel 'Project Caesar'. Roedd 22 o ganolfannau o'r fath ym mhedwar ban y byd. Er 1978, gwariwyd mwy na $40 miliwn ar offer newydd ac adeiladau ym Mreudeth.

Yn y seremoni ddadsefydlu ar 5 Gorffennaf 1995 yng Nghyfleuster Llynghesol yr UD ym Mreudeth, dywedodd Capten Ponessa, Comandr Llynges yr UD, Gwyliadwraeth Tanfor, wrth y wasg bod manylion y gweithgareddau yn dal yn gyfrinachol dros ben. Dywedwyd wrth y cyfryngau y crewyd cysylltiadau cryf gyda'r gymuned leol. Yn wir, sylwodd nifer ohonom yn y sir y byddai Llynges yr UD yn fynych yn eu gwobrwyo eu hunain am greu'r fath 'gysylltiadau'. Dyma'r cysylltiadau a alluogodd Lynges yr UD i osod weiren bigog a blwch sentri atal-bwledi fel amddiffynfeydd yn erbyn Gwersyll Heddwch y Menywod; a osododd aelodau o Lynges yr UD ar do'r ganolfan gyda gynnau peiriant yn ystod argyfwng Lybia; a waharddai'r bobl hynny rhag siarad â'r rheini ohonom a oedd yn disgwyl wrth y clwydi, a phan gaent siarad, i ddweud celwydd a gwadu bod â wnelo'r lle ddim oll â gwyliadwraeth danfor.

Bu Breudeth yn ffocws i nifer fawr o wrthdystiadau. Roedd yn wersyll pwysig ac o'r herwydd, yn darged trawiad cyntaf i'r Undeb Sofietaidd. Ymgyrchodd CND Gorllewin Cymru, Grŵp Gwrth-Niwclear Preseli, CND Abergwaun, Trefdraeth a Phenfro, ac CND Cristnogol Dyfed yn rheolaidd, hyd yn oed pan ymddangosai fel pe bai'r gwynt am hyrddio'r holl Iwerydd drostynt. Cynhaliodd CND Cymru rai gwrthdystiadau yno hefyd. Ym 1982, cynhaliwyd rali ardderchog i groesawu'r menywod a oedd wedi cerdded i Freudeth o bob rhan o Gymru. Sefydlwyd gwersyll heddwch menywod am sawl haf ar gornel y ffordd fawr. Bu'n darged i Ymgyrch Caseg Eira canol yr 80au hefyd.

Onid ânt â'u sbwriel oddi yno gyda hwy, bydd yr Americaniaid yn gadael ar eu hôl safle pedair-erw gydag adeiladau sawl-llawr o ystafelloedd tanddaearol. Mae gwely'r môr wedi ei lygru gan geblau tanfor sydd yn cysylltu rhesi o 'hydrophones' tanfor wrth ddetectyddion a chyfrifiaduron yn y ganolfan. Mae'r ceblau'n rhedeg ar hyd arfordir Cymru i Fae Sain Ffraid a channoedd o filltiroedd allan i Fôr Iwerydd, mewn dyfroedd rhyngwladol.

Ym mis Medi eleni bydd yr RAF yn cynnal ei seremoni ddadsefydlu ym Mreudeth, gan fod y staff RAF hynny sy'n dal yno wedi bod yn cefnogi cyfleuster yr UD, er gwaetha'r ffaith nad oedd y cyfleuster yn rhan o NATO.



# Byd ar Brawf

### Beth yw profion niwclear?

Prawf niwclear yw prawf-ffrwydro ergyd niwclear cyflawn. Profir y taflegrau a ddyluniwyd i gario ergydion niwclear ar wahân, gydag ergydion ffug. Mae'r rhan fwyaf o ffrwydradau prawf wedi bod gryn dipyn yn gryfach na bom Hiroshima – y prawf niwclear agored cyntaf ar boblogaeth anfilwrol. Cynhaliwyd y prawf niwclear cyntaf ym mis Gorffennaf 1945, a gwnaed mwy na 2,000 o brofion er hynny.

Mae cyfrinachedd a thechnoleg niwclear yn mynd law yn llaw. Er gwaethaf gwrthdystio cyhoeddus cynyddol am y lefelau o lygredd ymbelydrol a grewyd, parhaodd y profion awyr-agored a thanfor tan 1980. Er hynny, dim ond profion tanddaearol a gafwyd, ond mae profion o'r fath yn dal i ollwng llwythi o ymbelydredd, ar ddamwain i'r awyrgylch a, thrwy dryddiferu, i'r pridd, yr afonydd a'r môr.

### Beth yw'r esgus dros brofion niwclear?

Hawlia'r pwerau niwclear bod yn rhaid wrth brofion niwclear i sicrhau diogelwch a dibynadrwydd eu stoc arfau. Mae profi eu bod yn ddibynadwy yn awgrymu bwriad i ddefnyddio arfau niwclear. Mae'r pum pwer niwclear wedi ymrwymo i ddiarfogi o dan y Cytundeb Atal Lledaenu Niwclear a dylent, gan hynny, fod yn cynllunio sut i gael gwared o'u harfau niwclear, nid sicrhau eu bod yn ddibynadwy.

Gedy hynny brif bwrpas profion niwclear, sef datblygu arfau niwclear newydd. Mae'r gwledydd sydd yn atal negydu ar Gytundeb Gwahardd Profion Cynhwysfawr (CGPC), a fyddai'n llwyr derfynu profion niwclear, yn parhau i foderneiddio eu harfogaeth ac yn gwrthod diarfogi.


Mae gennym oll gallu i STOPIO PROFION NIWCLEAR



Boicotiwch Nwyddau a Gwasanaethau o Ffrainc!

**Mae llywodraeth Ffrainc wedi penderfynu ail-ddechrau profi arfau niwclear.Nid yn Ffrainc, ond yn ei threfedigaethau ar ynysoedd y Môr Tawel.**

Mae profion niwclear yn llygru'r amgylchedd â deunydd ymbelydrol, gan niweidio iechyd miliynau o bobl a thanseilio'r broses ddiarfogi niwclear.

**Os yw hyn yn wrthun gennych - gwrthodwch brynu nwyddau Ffrengig hyd nes y rhydd Ffrainc y gorau i'w ffrwydradau niwclear.**

Amser i Fyd Di-Niwclear!

**Am fwy o wybodaeth cysylltwch â: CND Cymru/Cynghrair Cymru Yn Erbyn Profion Niwclear, Siop Heddwch, Mackintosh Place, Caerdydd CF2 4RQ. Ffôn/Ffacs:(01550) 750 260 neu ffôn(01446)774452**


### Beth yw effeithiau profion niwclear?

Mae hanes profion niwclear yn llawn cyfrinachedd a diystyru iechyd y cyhoedd ac effeithiau ar yr amgylchedd yn fwriadol.

#### Peryglon i Iechyd

Mae afiechydon a achosir gan ymbelydredd, yn cynnwys lewcemia a gwahanol fathau o gancr, methiant systemau heintrydd, ac anffurfiant geni oll wedi cynyddu'n ddramatig ym mhob ardal lle gwnaed profion niwclear. Gwyddys bod un prawf gan yr UD yn Ynysoedd Marshall wedi cynyddu'r posibilrwydd y gallai pobl yno farw o gancr o 76%. Dywedwyd wrth y brodorion bod y profion yn ddiogel.

#### Hawliau Dynol

Mae gwledydd sydd yn profi arfau niwclear yn manteisio beunydd ar eu statws fel pwerau trefedigaethol neu ranbarthol i orfodi'r profion hyn ar bobloedd brodorol, poblogaethau ymylol, a thiriogaethau ymddiriedolaeth. Gorfodwyd poblogaethau i symud o ardaloedd neilltuol a'u condemnio i alltudiaeth barhaol.

Yn ystod 1995 a 1996, bwriada Llywodraeth Ffrainc fwrw ymlaen â phrofion niwclear yn ynysoedd atol Muroroa a Fangataufa yn y Môr Tawel.

#### Effeithiau ar yr Amgylchedd

Yn ystod unrhyw brawf niwclear, gollyngir defnyddiau gwenwynllyd ac ymbelydrol dros ben (er enghraifft, plwtoniwm 239, â hanner bywyd o 24,400 o flynyddoedd). Mae profion niwclear tanddaearol yn effeithio ar yr amgylchedd yn y tymor byr a'r tymor hir.

Pan ffrwydra'r ddyfais, gall y broses o hollti wyneb y ddaear achosi tirlithriadau, tonnau llanw a daeargrynfeydd yn ogystal â gollwng deunydd ymbelydrol i mewn i'r biosffer.

Mae'r effeithiau tymor-hir posibl yn cynnwys gollwng cynnyrch ymhollti i bob peth byw, a throsglwyddo radio-nwcleidiau tawdd i mewn i'r gadwyn fwyd. Mae'r profion yn creu tomenni gwastraff niwclear heb gyfyngiad nag arolygaeth arnynt. Yn Muroroa, lle mae Ffrainc yn profi arfau, mae pob ffrwydrad yn dinistrio mwy o'r atol sydd eisoes wedi ei drwytho ag ymbelydredd wedi ffrwydradau cynt. Caiff nwyon ymbelydrol eu gollwng i'r awyr hefyd.

Nid oes unrhyw fodd y gellir ystyried profion niwclear yn gydnaws â'r amgylchedd.

#### Niwed Gwleidyddol

Mae profion niwclear yn gwneud diarfogi niwclear yn llai tebygol ac yn hyrwyddo'r syniad fod bygwth a gormesu yn ddulliau cyfreithlon o weithredu cysylltiadau rhyngwladol.

### Faint yw cost profion niwclear?

Cyst pob prawf rhwng £30 miliwn a £100 miliwn yr un, heb gynnwys costau glanhau ar eu hôl. Amcangyfrifa Comisiwn Ynni Atomig yr UD y cyst £500 miliwn yr un i ddychwelyd safloedd i'w cyflwr gwreiddiol. Ni ellir amcangyfrif cost storio gwastraff ymbelydrol am gyfnod amhenodol.

### Pa gytundebau rhywngwladol a wnaed?

Lluniwyd sawl cytundeb â'r bwriad o gyfyngu ar brofion niwclear

Nid arwyddwyd y **Cytundeb Gwahardd Profion Rhannol (CGPR)**, a oedd yn gwahardd profion yn yr awyrgylch, yn y gofod a than y môr, gan Ffrainc na Tsieina ym 1963. Gwrthododd UDA a Phrydain ymdrech i drawsnewid y CGPR yn waharddiad cynhwysfawr.

Galwai'r **Cytundeb Atal Lledaeniad Niwclear (CGLN)** (1968) am negydu i sicrhau gwaharddiad cynhwysfawr. Arwyddodd 176 o wledydd y cytundeb hwn. Ym mis Mai 1995, cytunodd Cynhadledd y

CGLN i "ymatal i'r eithaf" o ran cynnal profion hyd oni arwyddir CGPC. Mae Tsieina a Ffrainc eisoes wedi torri'r addewid hwn.

**Cytundeb Gwahardd Profion Cynhwysfawr (CGPC).** Mae'r Gynhadledd ar Ddiarfogi yng Ngenefa wedi bod yn trafod CGPC er mis Ionawr 1994. Mae Prydain a Tsieina wedi gwrthod dwyn profion niwclear i ben dros-dro. Torrodd Ffrainc ei haddewid ym mis Medi 1995.

Mae negydu'n broses araf ac mae'n anodd cael gwledydd i gytuno ar fanylion.

### Pam mae Gwaharddiad Profion Cynhwysfawr yn beth mor bwysig?

Gallai Cytundeb Gwahardd Profion Cynhwysfawr arwain yn y man at ddiarfogi niwclear. Nid yw'r gwladwriaethau niwclear yn mynd i ymrwymo i gytundeb o'r fath tra'n dal â'u bryd ar foderneiddio ac ymestyn eu harfogaethau.

Mae Prydain yn cefnogi CGPC er mwyn atal gwladwriaethau eraill rhag cael gafael ar arfau niwclear tra'n mynnu cadw'r hawl i gynnal a datblygu ei rhaglen niwclear ei hun.

### Onid unig ddiben profion niwclear yw sicrhau bod y stoc arfau niwclear yn ddiogel?

Dyna yr hoffai gwladwriaethau arfau niwclear i ni ei gredu. Ym marn llawer o arbenigwyr, prawf ar elfennau an-niwclear taflegryn, sef "trigger test" yw'r sicrwydd diogelwch pennaf. Mewn gwirionedd, yr unig bryd mae angen profion niwclear yw os bydd arfau'n cael eu huwchraddio neu eu datblygu. Ni all arfau niwclear byth fod yn ddiogel. Os defnyddir hwy, effeithiant ar yr ymosodydd yn ogystal â'r rhai yr ymosodir arnynt. Os na ddefnyddir hwy, gall dim ond meddu'r fath arfau fod yn beryglus.

### Sut y gellid gwireddu gwaharddiad profi?

Mae dulliau gwireddu effeithiol ar gael, megis arwylio seismig drwy gyfrwng rhwydwaith byd-eang o orsafoedd, detectyddion sbwriel ymbelydrol, delweddau lloeren, a hysbysrwydd a chyfnewid gwybodaeth eang.

### Beth am brofion yn y dyfodol?

Mae llywodraethau ag arfau niwclear yn dibynnu ar dechnoleg newydd i barhau i brofi. Gall modelu ar gyfrifiadur a mini-ffrwydradau labordy ddileu'r angen am y profion niwclear yr ydym ni'n gyfarwydd â hwy. Mae'r dechnoleg hon ar gael ym Mhrydain a'r UD. Dywed Ffrainc y bydd yn gallu defnyddio'r fath dechnoleg ar ôl y rownd gyfredol o brofion arfaethedig. Mae cyhoeddiad diweddar Clinton na fydd yr UD yn cynnal mwy o brofion niwclear tanddaearol yn adlewyrchu;r ffaith y gall yr UD bellach brofi ei harfau drwy efelychiad cyfrifiadur.

Mae defnyddio technoleg o'r fath yn gwbl groes i'r cytundeb i weithio tuag at ddiarfogi niwclear a bydd yn gwneud gwireddu yn llawer anos.

Ni ddatryswyd y problemau a oedd yn ffactor bwysig mewn gwahardd profion atmosfferig drwy symud profion dan y ddaear; y cwbl a wnaed oedd symud y problemau o'r golwg, a throsglwyddo prif broblemau iechyd yr amgylchedd i genhedlaethau i ddod. Mae cadw gwastraff ymbelydrol o dan ddaear yn gam dadleuol dros ben, ac eto mae profion niwclear wedi creu tomenni gwastraff o'r fath.

### Beth nawr?

Rhaid i'r gwledydd hynny sydd wedi llygru'r ddaear â'u profion niwclear dderbyn cyfrifoldeb llawn am y llanast a grewyd ganddynt drwy:

- ymchwilio i'r llygredd a achoswyd a buddsoddi mewn glanhau'r ymbelydredd a'i gorlannu mewn un man
- ddarparu gwybodaeth gyflawn a chywir am effeithiau profion niwclear;
- gydnabod cymunedau yr effeithiwyd arnynt gan brofion niwclear a thalu iawndal iddynt.

Byddai gwaharddiad gwirioneddol ar brofion yn atal unrhyw fath o brofion niwclear ar unwaith ac am byth gan unrhyw wlad, heb unrhyw gyfaddawdu parthed maint ffrwydradau neu ddefnydd "heddychlon".

# Profion Niwclear Ffrainc

Yng Nghynhadledd y Cytundeb Atal Lledaeniad Niwclear ym mis Mai , ymrwymodd Ffrainc a'r gwladwriaethau arfau niwclear eraill i "ymatal i'r eithaf" ar fater profion niwclear, ac i "gyrchu'n benderfynol ymdrechion systematig a blaengar i ddileu arfau niwclear".

Cyhoeddodd Chirac ailgychwyn profion niwclear ar y 13 Mehefin. Dangosodd manylion gwybodaeth bellach bod hon yn rhaglen o brofion a fyddai'n caniatáu i Ffrainc ddatblygu ergydion niwclear newydd yn awr ac yn y dyfodol.

Meddai Peace News (Medi 1995): "Wedi prawf niwclear Tsieina ar 16 Awst, efallai y calonogir yr awdurdodau Ffrengig i anwybyddu pob protest. Ni ddylai'r mudiad protest rhyngwladol ddigaloni, fodd bynnag, oherwydd y nod yw nid yn unig atal profion ar unwaith ond hefyd i ddeffro cydwybod pobl ar gyfer y dyfodol. Ni ddylem anghofio trafodaethau Genefa ar Gytundeb Gwaharddiad Cynhwysfawr; yn bendant, nid yw caniatáu ffrwydradau cynnyrch-isel neu efelychiadau cyfrifiadur o brofion niwclear yn dderbyniol yn lle gwaharddiad llwyr ar brofion. Hanner canrif ar ôl y ffrwydrad niwclear cyntaf, dim ond un ddihangfa sydd o'r gwallgofrwydd hyn: diarfogi niwclear llwyr."




## *Ymateb Cymru i Chirac*

**Protest ASEau Cymru**

Cyflwynodd David Morris ASE, Cadeirydd CND Cymru gynnig brys yn y Senedd Ewropeaidd yn condemnio Ffrainc ac yn galw ar yr Undeb Ewropeaidd i roi'r gorau i unrhyw raglenni niwclear yn cynnwys profion. Cariwyd y cynnig â mwyafrif llethol. Arweiniodd David Morris wrthdystiad yn y Senedd Ewropeaidd hefyd pan ymwelodd Chirac ym mis Gorffennaf.

Mewn datganiad ar y 24 a'r 25 o Fehefin, mae Plaid y Sosialwyr Ewropeaidd wedi condemnio'r profion Ffrengig arfaethedig a galw am gytundeb buan ar GGPC ac "atgyfnerthu'r Heddwch".

### Cynghrair Cymru yn erbyn Profion Niwclear

Syfrdanwyd a gwylltiwyd pobl yng Nghymru gan gyhoeddiad Arlywydd Ffrainc, Jacques Chirac bod Ffrainc am ail-gychwyn profion niwclear. Mewn ymateb, ymunodd carfan hynod eang o ysgolheigion, arweinwyr eglwysig, ffigurau amlwg, gwleidyddion, mudiadau amgylcheddol, holl bleidiau gwleidyddol Cymru ac eithrio'r Toriaid, ac unigolion eraill i arwyddo datganiad yn condemnio Ffrainc. Sefydlwyd y Gynghrair gan y Siop Heddwch i gynnwys pob unigolyn, grŵp a mudiad sydd am sefyll gyda'i gilydd i ddweud "dyna ddigon", sefyll ochr yn ochr â phobloedd De'r Môr Tawel y peryglir eu hurddas, eu iechyd a'u hamgylchedd unwaith eto, ac i gyd-ymgyrchu.

- *Mae mwy o wybodaeth am Gynghrair Cymru ar gael gan George Crabb (01446) 774452*

### Boicot ar Nwyddau Ffrengig a Deiseb at Chirac

Lawnsiodd y mudiad heddwch rhyngwladol foicot yn erbyn nwyddau Ffrengig cyn gynted ag y clywodd gyhoeddiad Chirac. Tra'n ymgyrchu yn ystod yr haf, cawsom fod y rhan fwyaf o bobl yn barod iawn i ymuno â'r boicot wrth siopa, gyda rhai unigolion eisoes yn gwneud fel protest bersonol. Mae gweithredu o'r fath yn caniatáu i unigolion brotestio ac maent wedi llwyddo yn y gorffennol. Nid pawb all hwylio i Dde'r Môr Tawel! Yn erbyn penderfyniad Chirac y mae ein protest, nid y Ffrancod fel pobl. Pe newidiai Chirac ei benderfyniad, dathlem ninnau â llwncdestun o win Ffrainc.

Mae Clymblaid Gwaharddiad Profion Prydain wedi lawnsio hysbyseb sinema yn annog pobl i foicotio nwyddau Ffrengig. Mae hyn wedi peri tipyn o stwr yn y cyfryngau.

### Prawf Cyntaf Ffrainc – Medi'r 5ed

Gan ymateb i'r cyntaf o'r profion arfaethedig, cynhaliodd Cynghrair Cymru yn erbyn Profion Niwclear wylnos ar unwaith y tu allan i Gastell Caerdydd. Ffacsiodd CND Cymru brotest at Chirac o fewn munudau o glywed y cyhoeddiad, a chafodd yr arswyd a deimla ein cefnogwyr sylw brwd yn y cyfryngau Cymreig. Ddydd Sadwrn 9 Medi, cynhaliwyd gwrthdystiad, ar ffurf ffug angladd nifer o blant, yng Nghaerdydd. Roedd yr elorau a gariwyd drwy Gaerdydd yn gwneud y cysylltiad rhwng pob rhan o'r cylch niwclear, gan gynrychioli pawb sy'n dioddef oherwydd rhyfel niwclear a'r paratoadau ar ei gyfer, a'r rheini sy'n marw oherwydd camddefnyddio adnoddau er mwyn paratoi at ryfel, pob ffoetws a lofruddiwyd y tu fewn i'w mamau yn Hiroshima a Nagasaki, a'r plant hynny a fydd farw eto o ganlyniad i'r profion a'r paratoadau presennol.

### Ymgyrchoedd Byd-eang

Mae pobl o bedwar ban y byd wedi condemnio profion Ffrainc fel un gŵr. Calonogol i ni yng Nghymru yw teimlo'r cydgadernid byd-eang yr esgorwyd arno gan yr achos hwn. Mae llywodraethau yn Rwsia, yr UD, Siapan, Sweden, Awstralia a Seland Newydd, De Affrica ac Indonesia yng ogystal â chenhedloedd Fforwm De'r Môr Tawel wedi gwrthwynebu penderbyniad Ffrainc i ryw raddau neu'i gilydd. Mae John Major yn gwrthod condemnio'r prawf gan ddweud dim ond mai "Mater i'r Ffrancod ydyw". Pan ofynnwyd iddo a wnai "ymuno â'n partneriaid yn y Gymanwlad, Awstralia a Seland Newydd, yn eu gwrthwynebiad i'r prawf bom niwclear yn y Môr Tawel", ymateb Major oedd "Na wnaf".

## Prawf Niwclear Tsieina

Mae Tsieina wedi cynnal dau brawf niwclear er diwedd y trafodaethau Atal-Lledaeniad ym mis Mai. Protestiodd CND Cymru yn erbyn y rhain. Pan gyhoeddwyd yr ail o'r profion hyn ym mis Awst, amgylchynodd 500 o wrthdystwyr Lysgenhadaeth Tsieina yn Llundain. Mae'r mudiad heddwch wedi canolbwyntio ei ynni yn fwy ar Ffrainc oherwydd ei bod yn wlad fwy tebyg o ymateb i farn gyhoeddus a rhyngwladol,. Restiwyd ymgyrchwyr CND pan oeddynt yn gwrthdystio y tu allan i Lysgenhadaeth Tsiena a'u cyhuddo o "oresgyn Tsieina". Cyfeiriad Llysgenhadaeth Tsieina yw 31 Portland Place, Llundain (0171 636 5197)

**#WEITHREDU: AM SYNIADAU YMGYRCHU, GWELER Y DAFLEN AMGAEËDIG – A LLUNGOPIWCH Y DDEISEB A CHASGLU ENWAU ARNI.**

*Danfonwch y cerdyn post "Cymru Ddi-Niwclear" amgaeedig at: Président Jacques Chirac, Palais de Elysée, Rue de Faubourg Saint Honorée, Paris 75008, Ffrainc, gyda'ch neges eich hun ynglŷn â phrofion niwclear. Bydd angen stamp 25c. ar y cerdyn.*

***ADOLYGIAD***

### Wings of Death

*Dr. Chris Busby*

"Efallai yr ymddengys y nifer o blant ac wyrion â chancr yn eu hesgyrn, â lewcemia yn eu gwaed, neu â gwenwyn yn eu hysgyfaint yn fychan o safbwynt ystadegol i'w gymharu â pheryglon naturiol ond nid perygl naturiol mo hyn na mater o ystadegau. Dylai colli hyd yn oed un bywyd dynol, neu gamffurfiant un baban a enir wedi i ni fynd fod yn destun pryder i bob un ohonom. Nid ystadegau mo'n plant a'n hwyrion y gallwn fod yn ddifater yn eu cylch."

John F. Kennedy yn annog Senedd yr UD i gadarnhau Cytundeb Gwaharddd Profion Rhannol 1963

Mae rhywfaint o ymbelydredd yn digwydd yn naturiol. Ceir lefelau isel o ymbelydredd o ganlyniad i brofion niwclear, a dympio gwastraff niwclear yn yr amgylchedd. Dywedir wrthym bod lefelau'r ymbelydredd hwn a grewyd gennym ni mor isel fel nad yw ymbelydredd o'r fath yn bygwth bodau dynol.

Mae'r awdurdodau wedi diystyru'r hyn sy'n ymddangos fel cynnydd mewn cyfraddau cancr ger canolfannau lle ceir gweithgaredd niwclear fel ffenomenon ystadegol ddibwys.

Mae amledd cancr yn cynyddu, ac mae cyfraddau cancr yn uwch yng Nghymru na gwledydd eraill Prydain. Mae'r ffaith ei bod yn glawio gymaint yng Nghymru yn golygu bod mwyfwy o gynnyrch ymbelydrol o weithgareddedd niwclear dynol yn cael ei ollwng ar amgylchedd Cymru. Dengys y llyfr hwn bod y cyfraddau cancr uchel yng Nghymru yn dilyn, ar ôl ysbaid o ugain mlynedd, y cynnydd mewn Strontiwm 90, un o gynhyrchion ymbelydrol ffrwydradau niwclear, yn yr amgylchedd.

Mae "Wings of Death" yn dwyn ynghyd ffiseg ymbelydredd, bywydeg cell, ac ystadegau meddygol i ddangos y gydberthynas wirioneddol rhwng ymbelydredd ac amledd cancr, a'r gwahaniaeth rhwng effeithiau ymbelydredd naturiol ac ymbelydredd a grewyd gan fodau dynol ar gelloedd byw.

Prynwch y llyfr hwn a'i ddarllen a phrynwch gopi i'r AS neu'ch Cynghorydd Sir.

Fe'i cyhoeddwyd ym mis Medi, ac mae ar gael am £10.99 (taladwy i "Archwiliad Gwyrdd Cymru") gan: Adran Gyhoeddiadau, Archwiliad Gwyrdd Cymru, 38 Stryd y Frenhines, Aberystwyth SY23 1PU (01970) 611226.

# Hiroshima – Byth Eto!

*"Hedodd gwas neidr coch heibio i mi a glanio ar y ffens o'm blaen, Codais innau, â 'nghap yn fy llaw, ac estyn ato i'w ddal. Yr eiliad honno . . ."*
*Fukihara Eiji, oed 11. 8.15 fore Llun 6ed Awst 1945. Hiroshima*

Ni allai fod adeg fwy addas i ni fynnu terfyn ar hanner canrif o frawychaeth niwclear byd-eang ("braw-ataliaeth" bondigrybwyll) nag eleni, blwyddyn hanner canmlwyddiant bomio Hiroshima a Nagasaki. Y man cychwyn gorau, efallai, fyddai i ni graffu'n ofalus ar realaeth yr hyn a ddigwyddodd ym mis Awst 1945.

Pe bai lluoedd y Gynghrair wedi gweithio eu ffordd yn systematig drwy strydoedd Hiroshima a Nagasaki â thaflwyr-tân a llosgi'n ulw pob menyw, dyn a phlentyn mewn golwg – pwy fuasai wedi ceisio cyfiawnhau'r fath drosedd ryfel? Ond oherwydd y pellter – llythrennol – rhwng achos ac effaith, gweithredydd a gweithred, yn rhy fynych nid yw pobl yn meddwl am yr ymosodiadau bomio hyn o safbwynt cyfrifoldebau dynol. Mae gan arfau niwclear, ar y cyfan, statws afreal, lled-fythegol yng nghanfyddiaeth pobl. Perthyn iddynt y fath naws haniaethol, uwchddynol nes i ni fethu edrych drwy hynny i'r dioddefaint dynol a'r marwolaethau a achosir ganddynt, sef eu hunig ddiben.

Ychwaneger at hynny y ffaith y gwnaed penderfyniad gwleidyddol ym 1945 i beidio â dangos delweddau o ddioddefaint dynol yn Hiroshima, gan ollwng i'r cyfryngau luniau o ddifrod i adeiladau yn unig. Gan hynny, i'r dydd heddiw, i lawer o bobl yn y Gorllewin, nid oes i'r gair "Hiroshima" gysylltiadau gweledol dynol uniongyrchol. Tra bod ynganu "Auschwitz" yn esgor ar ddelweddau penodol ac ofnadwy o garcharorion ysgerbwd-denau, y beddau torfol erchyll, ac ati, arwyddlun cyfarwydd Hiroshima yw'r cwmwl madarch – neu luniau o'r awyr o'r ddinas ddadfeiliedig. Gwawriau llwyd a gwyn, yn bellennig ac amhersonol, gallai'r rhain fod yn adfeilion Pompeii, neu Mohenjo Daro.

Nid oes a wnelo hynny ddim oll â ni heddiw. Dim i'w wneud â Trident, â Faslane neu Coulport, Sellafield, Llanisien neu Drawsfynydd. Dim byd i'w wneud â'r confois o ergydion niwclear sydd yn rhygnu drwy Glasgow yn rheolaidd...

Dim ond y rheini a aeth i'r drafferth o ddarllen hanesion personol y rhai a oroesodd, neu a welodd y ffilm a dynnwyd gan y Siapaneaid yn union wedi'r digwyddiad all syllu, i ryw raddau bychain, i mewn i uffern Hiroshima.

Hiroshima yw ein "Pechod Gwreiddiol" niwclear; dim ond drwy wadu, neu drwy anwybyddu realaeth y drosedd hon, y gallwyd cynnal y syniad o "fraw-ataliaeth" ers hanner can mlynedd.

Mae gormod o bobl yn dal i ddiystyru'r erchyllter hwn yn rhy rwydd drwy ddweud iddo "gwtogi'r rhyfel". Prin bod angen dweud, hyd yn oed pe bai hynny'n wir, na fyddai'n esgusodi defnyddio bomiau atomig. Ni ellir byth cyfiawnhau lladd pobl an-filwrol diniwed yn fwriadol, oblegid diogelwch y rheini nad ydynt yn ymladd sydd wrth graidd unrhyw gysyniad o Ryfel Cyfiawn. Nid yw'r diben yn cyfiawnhau'r modd. Pen draw rhesymegol y fath anwiredd yw y dylid cadw pob milwr gartre'n ddiogel yn eu barics, tra defnyddiwn ninnau rhyw ddull addas o ddileu poblogaeth y gelyn yn ei chrynswth. Yn y modd hwnnw, gallem achub bywydau ein holl filwyr.

Tra bod Hiroshima a Nagasaki yn dechnolegol yn cynrychioli llam cwantwm i mewn i ddimensiwn newydd o ddiddymiant torfol, yn seicolegol (ac yn foesol) braenarwyd y tir ar gyfer y fath ddigwyddiad gan drwyth-fomio'r Ail Ryfel Byd. Mae'r tabl yn olrhain y datblygiad o ganol y 1930au.

Arswydodd y byd pan ddefnyddiwyd bomio o'r awyr am y tro cyntaf yn Guernica ym 1937 yn ystod Rhyfel Cartref Sbaen. Ystyriwyd hon yn drosedd ryfel unigryw o filain. Pan fomiodd Hitler Rotterdam ar ddechrau'r rhyfel, ceisiodd ei gyfiawnhau ei hun drwy ddweud "nad oedd bywydau 1,000 o Iseldirwyr werth bywyd un milwr Almaenig". Bryd hynny, ystyrir bod y sylw hwnnw yn enghraifft bwerus o'r union beth yr oeddem yn ymladd yn ei erbyn. Ac eto, ar ddiwedd y rhyfel, gallai "Bomber" Harris adleisio (heb yn wybod iddo, rhaid tybio) union eiriau Hitler pan ddywedodd "Nid yw holl ddinasoedd yr Almaen werth esgyrn un Grenadier Prydeinig". Felly, drwy drwyth-fomio, daeth y cynghreiriaid yn y pen draw i fabwysiadu'r etheg yr aethant i ryfel i'w gwrthwynebu yn y lle cyntaf, gan gyflawni mewn modd annaearol broffwydoliaeth Goebbels: "Hyd yn oed os collwn, byddwn wedi ennill oblegid bydd ein syniadau wedi treiddio i galonnau ein gelynion".

Erbyn ail hanner 1945 nid oedd gan Siapan yr un awyren ar ôl, a gallai peilotiaid yr UD hedfan a bomio fel y mynnent. Roedd naw rhan o ddeg o longau Siapan wedi eu suddo neu eu difrodi. Roedd Tokyo, Nagoya, Osaka, Kobe a Yokohama eisoes wedi ei dinistrio'n llwyr. Roedd Siapan wedi ei threchu, ar fin ildio, ac roedd hynny'n hysbys. Hysbysodd Swyddfa Dramor Siapan Fosgo yn swyddogol ar 13eg o Fai bod "yr Ymerawdr yn dymuno heddwch". Yng nghanol mis Gorffennaf, ceisiodd llywodraeth Siapan holi am bosibilrwydd heddwch drwy gyfrwng Sato, ei llysgennad ym Mosgo. Anwybyddodd yr Undeb Sofietaidd y camau hyn oherwydd, o dan gytundeb Yalta, roeddynt i fod i ymuno â'r rhyfel yn erbyn Siapan dri mis ar ôl diwrnod VE ac roeddynt yn eiddgar i wneud hynny. Gwyddai gwasnaethau cudd-wybodaeth yr UD am y cysylltiadau hyn â Mosgo. Cyflymwyd y gwaith ar Brosiect Manhattan (sef y rhaglen fomiau niwclear) rhag ofn i Siapan ildio cyn y gellid defnyddio'r bom.

Cawsai'r ddwy ddinas darget eu gadael heb eu niweidio drwy gydol y rhyfel am eu bod eisoes wedi eu dethol ar gyfer "yr arbrawf" – yr union air a ddefnyddiwyd gan Truman a Major Groves (pennaeth Prosiect Manhattan) ar y pryd.

Ar yr 8fed o Awst, datganodd yr Undeb Sofietaidd ryfel ar Siapan a goresgyn Manchuria. Trechodd y Marsial Alexander Vasilevsky Fyddin 800,000-milwr Ymerodrol Kwatung a'i charcharu o fewn deuddydd.

**Datblygiad trwyth-fomio targedau an-filwrol er canol y 1930au**

| Blwyddyn | Lle | Marwolaethau |
|---|---|---|
| 1937 | Guernica | 1654 |
| 1940 | Coventry | 1000 |
| 1941 | Clydeside | 1083 |
| 1944-45 | London | 3000 |
| 1945 | Dresden | 45,000 |
| 1945 | Tokyo | 90,000 |
| 1945 | Hiroshima | 140,000 ym 1945; 200,000 erbyn 1950 |
| 1945 | Nagasaki | 70,000 ym 1945; 140,000 erbyn 1950 |

Roedd posibilrwydd gwirioneddol bellach y meddiannid tir mawr Siapan gan y Sofietaid. Ofn hynny a barodd i'r Americaniaid dderbyn parhad yr Ymerawdr fel Pennaeth y Wladwriaeth – yr unig amod a buasai'r Siapaneaid yn ei cheisio ers mis Mai – a hynny hefyd a barodd i'r Siapaneaid dderbyn gwarth ildio'n ffurfiol a diamodol. Cyhoeddodd edict Ymerodrol ar Awst 14eg benderfyniad Siapan i ildio.

Ysgrifennodd y Cadfridog Eisenhower yn ddiweddarach: "Roedd Siapan ar yr union adeg honno yn ceisio rhyw ffordd o ildio gan golli cyn lleied o 'wyneb' ag oedd bosib . . . doedd dim angen eu taro â'r peth ofnadwy yna." Cyfaddefodd Ysgrifennydd Rhyfel yr UD ar y pryd, Stimson, y defnyddiwyd y bom i "ennill mantais wleidyddol dros yr Undeb Sofietaidd".

Mae'r digwyddiadau yn union wedi hynny hefyd yn taflu goleuni ar y bomio. Dim ond 51 diwrnod wedi i Siapan ildio, yn y cynllun rhyfel TOTALITY, cyflwynodd Cyd-Staff Cudd-wybodaeth y Pentagon astudiaeth o'r enw "Strategic Vulnerability of Russia to an Air attack". Rhagwelai hynny ymosodiad o'r awyr gyda bomiau atomig ar ugain o ddinasoedd Rwsiaidd. Dilynwyd hynny gan gynlluniau rhyfel eraill gyda'r cod-enwau a ganlyn:

1946-48 BROILER: CHARIOTEER (cynllun rhyfel byd-eang yn cynwys 133 bom atomig ar 70 dinas Rwsiaidd, 8 ar Fosgo a 7 ar Leningrad): COGWHEEL: GUNPOWDER: DOUBLESTAR: ABC: DUALISM a FLEETWOOD.

Ym 1949: DROPSHOT A TROJAN.

(Ffynhonnell: Operation World War III gan Anthony Cane Brown. Gwasg Arms & Armour, 1977.)

Achosodd ofn y trawai Rwsia yn ôl yn erbyn yr UD ac, yn y tymor byr, cydymdeimlad poblogaidd byr-hoedlog ond eang ag ymdrech pobl yr Undeb Sofietaidd yn y rhyfel, i'r cynlluniau hyn gael eu rhoi o'r neilltu hyd oni ellid dyfeisio system gwbl orlethol (Trawiad Cyntaf) heb fod posibilrwydd y gallai'r Undeb Sofietaidd daro'n ôl.

Dylid nodi nad oedd gan yr Undeb Sofietaidd unrhyw arfau niwclear drwy gydol y cyfnod hwn. Mae'r cynlluniau rhyfel ymosodol cynnar hyn yn dangos pa mor gwbl ffug oedd yr honiad mai cysyniad "amddiffynnol" pur oedd "braw-ataliad".

Mae'r sefyllfa gyfredol yn parhau â'r traddodiad hwn o gelu strategaeth o gynllunio rhyfel ymosodol tan gochl celwydd a chamhysbysrwydd. Felly, mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn yn mynnu mai'r "lleiafswm braw-ataliol" yw Trident tra bod Pwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Amddiffyn yn ei groesawu fel "cynnydd arwyddocaol yn ngallu niwclear y DU". Mae Prydain bellach yn cael gwared o'i bomiau hynafol (a pheryglys) rhydd-gwymp WE-177, a gosod yn eu lle y system Trident lawer mwy cywir a marwol – a galw hynny'n ddiarfogi.

Mae'r gyntaf o'r pedair llong danfor, HMS Vanguard, eisoes yn weithredol ac wedi ei harfogi â 96 o ergydion niwclear. Mae gan bob un o'r rhain nerth dinistriol o 100 ciloton, h.y., wythgwaith maint y bom a ddefnyddiwyd ar Hiroshima. Mae'r rhain yn barod i'w tanio ar bymtheg munud o rybudd . . .

Efallai bod hyn yn ymddangos fymryn dros ben llestri hyd yn oed i'r niwc-wallgofddyn mwyaf brwdfrydig. P'run bynnag, adroddodd Malcolm Rifkind ym mis Tachwedd 1993 y byddai gan Trident "swyddogaeth is-strategol" hefyd. O dan y cynnig diymhongar hwn, byddai Trident yn tanio "dim ond" un o'i hergydion – h.y. wyth Hiroshima – i "ymgymryd â thrawiad niwclear mwy cyfyngedig . . . drwy draddodi neges ddigamsyniol o'n parodwrydd i amddiffyn ein buddiannau hanfodol." Am gyfyngiad! Am neges!

Mewn Cymraeg plaen, golyga hyn ein bod yn barod i ddefnyddio Trident yn erbyn unrhyw wladwriaeth Drydydd-Byd ddi-niwclear sydd yn beiddio camymddwyn.

Nid dim ond mater o hanes mo hanner canmlwyddiant Hiroshima; mae hefyd yn ein hatgoffa mewn modd deifiol o realrwydd heddiw. Rydym yn barod i wneud eto heddiw yr hyn a wnaethom 50 mlynedd yn ôl – ac mewn modd llawer, llawer gwaeth.

*Brian Quail yw Cyd-Ysgrifennydd CND yr Alban*

## Prosiect Plant Chernobyl Cymru – y stori hyd yn hyn




Canlyniad y swm o fwy na £5,000 a godwyd drwy ganu, cerdded, gwerthu neu gasglu yw'r ambiwlans hyfryd yma a brynwyd, a drwsiwyd, a addaswyd ac a addurnwyd yr haf yma. Mae'r cymorth a gawsom gan unigolion a mudiadau wedi bod yn aruthrol. Cymorth yn amrywio o "50 tedi twt i drasiediau" gan nyddwraig yn Nhrefdraeth, peintio arwyddion a ffenestri rhad-ac-am-ddim, i lafur am ddim i weithio ar yr ambiwlans mewn modurdy lleol. Codwyd £2,000 tuag at brynu moddion gan gymuned ger Amwythig, ac mae meddyg o Landrindod yn ein helpu i'w brynu am ddim ond cost.

Ym mis Hydref, bydd Road a Jill Stallard yn mynd â'r ambiwlans – ynghyd â 13 ambiwlans arall o Iwerddon ac un o Fanceinion, a 3 lori fawr yn llawn cymorth meddygol i Belarus. Bydd ambiwlans CND Cymru yn mynd i ysbyty/ cartref plant amddifad yn Gomel, yn yr ardal a lygrwyd, ychydig i'r gogledd o'r ffin ag Wcraen; bydd y rhai eraill yn mynd i Minsk.

Treuliasom ran o'r haf yn teithio o gwmpas Cymru gydag arddangosfa yn dangos effeithiau meddygol y ddamwain niwclear yn Chernobyl, yn pwysleisio y gallai damwain o'r fath ddigwydd mewn gorsaf niwclear neu wrth gludo defnyddiau ymbelydrol, unrhywle. Yr un fyddai'r effeithiau. Ni all beth bynnag a wnawn i'r rheini yn Belarus ac Wcraen byth fod yn ddigon; ein pwer mwyaf yw sicrhau na all damwain niwclear o'r fath byth ddigwydd eto drwy weithio i roi terfyn ar yr holl gêm niwclear. Bydd y llygredd a'i effeithiau ar boblogaeth Wcraen, Belorus, a gweddill y byd yn para am fwy na 24,000 o flynyddoedd. I ni, mae hynny'n dragwyddoldeb.

Bwriadwn brynu moddion ar gyfer Gomel gydag unrhyw arian a gyfrennir o hyn ymlaen. Bydd cyfraniadau a ddaw i law ar ôl mis Hydref yn dal i fynd yn syth i Brosiect Plant Chernobyl. Danfonwch hwy at Prosiect Plant Chernobyl, "Nantgaredig", Cynghordy, Llanymddyfri, Dyfed SA20 0LR. Gellir cael mwy o wybodaeth am y prosiect neu effeithiau'r ddamwain yn Chernobyl gan Jill, o'r un cyfeiriad.

### Cerddded a Siarad – Ray, Wendy, Tad a Newt bach yn Sir Benfro

Diolch i bawb a noddodd neu a gyfrannodd tuag at lwyddiant gwych Taith Gerdded Ray, Wendy, Tad a Newt drwy Sir Benfro dros Brosiect Plant Chernobyl a Môr Iwerddon Di-niwclear ym Mhefin/Gorffennaf. Codwyd £1,000 tuag at Brosiect Plant Chernobyl. Carem hefyd ddiolch i'r cyfeillion caredig yn Sir Benfro a ddarparodd lety a chefnogaeth i'r teulu crwydrol hwn. Er bod Tad a Newt yn dal yn eu coetsys, cerddeodd Ray a Wendy yn dalog, gan oedi i ddosbarthu taflenni a siarad â phobl leol ac ymwelwyr gwyliau, gyda chymorth ymgyrchwyr lleol. O Aberteifi ar Fehefin 29ain, teithiasant drwy Drefdraeth, Abergwaun, Abercastell, Tŷ Ddewi, Hwlffordd, Doc Penfro, Stackpole, Dinbych y Pysgod a Saundersfoot, gan derfynu ar Orffennaf 8fed yn Amroth. Meddai Wendy. "Felly, dyma ei throi hi am adre, wedi cwrdd â llu o bobl fendigedig, gyda'r coesau'n heini a'n meddyliau'n iach wedi'n hanturiaethau, a ninnau wedi helpu i fynd â'r neges ddi-niwclear i Benfro hardd."

# Gwersyll Heddwch Faslane – Teimlo'r Gwres

Unodd y waedd dros yr uchelseinydd, "teimlwch y gwres, clywch y sgrechiadau, cofiwch yr arswyd yn Nagasaki!" 150 o bobl o bob rhan o wledydd Prydain a gynullodd yn Faslane ar Awst 9fed.

Llwyddodd gweithred ffug-farw y tu allan i glwyd ogleddol pencadlys y llongau tanfor niwclear Trident gadw'r glwyd ar gau ar yr union adeg pan, hanner canrif ynghynt, y gollyngwyd yr ail fom atomig.

Cadwodd pedwar diwrnod o weithredu uniongyrchol y gwersyll ar ei wyliadwraeth beunydd. Y noson gyntaf, yn ystod gwylnos golau-tân, niweidiwyd rhan o'r ffens â thân. Bore drannoeth, yn union wedi'r weithred ffug-farw, restiwyd 19 o bobl am redeg drwy'r glwyd ddeheuol agored; ceisiodd un person noddfa yng nghapel y gwersyll ond fe'i llusgwyd oddi yno a'i restio. Restiwyd 13 o bobl yn hwyrach yn y dydd pan geisiasant rwystro'r glwyd ogleddol. Torrwyd y ffens sawl gwaith, gan weithredu'r larwm a chadw heddlu Strathclyde yn brysur.

Torrir i mewn i'r gwersyll beunydd gan brotestwyr heddwch. Ym mis Mawrth eleni, treuliodd pedair menyw bedair awr y tu fewn i ardal ddiogel Trident, corlan fwyaf gwaharddedig Ewrop. Gosodwyd gwaharddiad llys ar Greenpeace i gadw draw oddi wrth longau tanfor y llynges wedi iddynt ymyrryd ag ail fordaith HMS Vanguard drwy ddal y llong danfor â rhaffau a phwysau arnynt a rhwydi.

Sefydlwyd Gwersyll Heddwch Faslane gan bobl leol 13 mlynedd yn ôl. Mae'n croesawu ymwelwyr o bedwar ban y byd. Byddant yn rhwystro llwybr confois ar eu ffordd i Faslane




â deunydd niwclear ac yn tresmasu ar dir y Weinyddiaeth Amddiffyn yn yr ardal ac yn y gwersyll. Hysbysir y cyhoedd o fodolaeth atgas Trident drwy'r graffiti sydd yn addurno'r gwersyll a'r ffordd sydd yn arwain tuag ato.

Cefnogir y gwersyll heddwch gan y cyngor Llafur lleol, ac mae hynny wedi ei alluogi i aros yno.

Mae cylchgrawn Gwersyll Heddwch Faslane, Faslane Focus yn datgelu rhai o weithgareddau'r llynges ac yn disgrifio gweithgareddau'r gwersyll heddwch., Danfonwch amlen fawr a'ch cyfeiriad a stamp arno i'r cyfeiriad isod am gopi.

*#Gwersyll Heddwch Faslane, Shandon, Helensburgh, Dunbartonshire, Yr Alban G84 8NT.*
*Diolch i Peace News ac i Myra Eastland, Caerdydd*

# Lleisiau o'r Gorffennol

O erthygl a gyhoeddwyd gyntaf yng nghylchgrawn 'Ynni' 1982

### Yr Annwfn Glas

Ni ddatgelwyd gwir hyd a lled a dyfnder yr arswyd niwclear nes i ni gyrraedd Oahu lle gwelsom drosom ein hunain mor hawdd y gallai Paradwys Ddaearol y Môr Tawel droi'n Baradwys Goll.

Yn wreiddiol, lle i ymlacio am ychydig ddiwrnodau wedi taith heddwch dri-mis brysur yn Seland Newydd oedd Oahu, neu Honalulu fel y'i hadwaenir gan yr ymwelydd gwyliau.

Drwy gyd-ddigwyddiad, roedd Pacific Concern yn cynnal cynhadledd yno yr un pryd â'n hymweliad ac fe'm gwahoddwyd i fynychu'r gynhadledd a'i hannerch.

Deuai'r cynrychiolwyr o lefydd ag enwau a chysylltiadau dieithr. Roedd un peth yn eu huno. A hwythau wedi syrffedu ar gael eu defnyddio mewn arbrofion niwclear, wedi syrffedu ar gael eu mamwledydd wedi eu defnyddio fel tomenni gwastraff niwclear, dim ond un peth a ddymunent – pwerau niwclear allan.

Clywsom bod atol Mururoa ym Mholynesia Ffrengig yn suddo a hollti dan bwysau ffrwydradau atomig tanddaearol, gan dywallt gwastraff ymbelydrol i mewn i'r Môr Tawel. Er bod Llywodraeth Ffrainc wedi gwadu hyn yn llwyr, ni chaniateir mynediad i neb i'r ardal i wireddu hyn drwy brofion. Ceisiodd Bill Ethyll a'i deulu hynny yn eu cwch hwylio Pacific Peacemaker ar Ebrill 1 eleni: trawyd eu cwch gan gwch heddlu Ffrengig a'i niweidio.

Er y profion atomig cyntaf ar Bikini ym mis Gorffennaf 1946, ffrwydrwyd mwy na 180 o fomiau niwclear yn y Môr Tawel. Dim ond yn awr y mae'r effeithiau tymor-hir arswydus yn dod i'r amlwg.

Clywsom am fabanod marw a droes yn sachau o jeli yn y groth, am eni babanod nad oeddynt yn debyg i unrhyw beth dynol.

Yn Hawaii, tywalltwyd pum miliwn galwyn o wastraff niwclear hylif i mewn i'r dyfroedd o gwmpas yr ynys. Cedwir mwy na 3,000 o arfau niwclear yno yn barod i'w defnyddio.

Ar ynys fechan Ebye, mae mwy na 8,000 o bobl a symudwyd o'u cartrefi yn byw ar 24 hectar o dir, dwysedd poblogaeth mwy nag Efrog Newydd. Gwnaed ynys Runit yn anghyfannedd am byth; gorchuddiwyd ei hanner â choncrid i geisio corlannu'r ymbelydredd. Ar ynys Rongelap, mae 69% o'r plant a oedd dan ddeng mlwydd oed ym 1954 wedi datblygu tyfiannau thyroid.

Dim ond rhan fechan yw hyn o'r toreth o dystiolaeth sydd o'r modd yr ecsploetiwyd ynysoedd y Môr Tawel a'u llygru.

Ym 1953, dywedodd y Comisiynydd Libby o Gomisiwn Ynni Atomig yr Unol Daleithau: "Rhaid i bobl ddysgu byw gyda ffeithiau bywyd, a rhan o ffeithiau bywyd yw alldafliad."

Deuthum o'r cyfarfod hwnnw â chalon drom oherwydd dioddefaint pobl y Môr Tawel a'r modd y cawsant eu bradychu,

Mae'r sylw a briodolir i Henry Kissinger – "Dim ond 90,000 o bobl sy'n byw yno – pwy sy'n becso dam?" – yn nodweddiadol o duedd y pwerau mawrion i weld y Môr Tawel fel llain profi arfau niwclear anghyfannedd a thomen wastraff niwclear.

Dylai ymgyrchwyr heddwch Ewrop eu hysbysu eu hunain a'r cyhoedd yn ddiymdroi o'r gwirionedd am y Môr Tawel. Oblegid yno y ceir y gwirionedd byw a marw am wir arswyd rhyfel niwclear.

*Jack Sheppard (sylfaenydd Pensiynwyr dros Heddwch Rhyngwladol)*

## Mae Menywod Llanisien ym Mhobman – Ond Ble Mae Cyfiawnder?

Ym mis Gorffennaf, roedd Mary Millington o Gaerdydd, sydd yn mynychu gwylnosau menywod y tu allan i SAA Llanisien yn rheolaidd, ynghyd â phum menyw arall o Wersyll Heddwch Greenham (sydd wedi cynnal presenoldeb di-dor wrth y Glwyd Felen er mis Medi 1981) yn Llys y Goron, Reading i apelio yn erbyn collfarniad am niwed troseddol yn SAA Aldermaston. Aeth menywod o CND Caerffili a Llanisien i'w cefnogi ac i dystio.

Cawsai'r menywod eu collfarnu am dorri ffens y SAA, ac amddiffynasant eu hunain drwy ddefnyddio rhan o'r Ddeddf Niwed Troseddol a'r Ddeddf Hil-laddiad fel "esgus cyfreithlon". Dywedasant mai eu "cred onest" oedd eu bod yn amddiffyn y tir rhag llygredd, ac eto, ni chawsant gynnig tystiolaeth am lygredd, damweiniau na marwolaethau yn SAA Aldermaston. Ni chafod Alison Jackson o Lanisien na meddyg a oedd i dystio am y peryglon i iechyd siarad. Cafodd John Large, ymgynghorydd i CND a Greenpeace ar faterion niwclear, ateb cwestiynau ynghylch y Ddeddf Hil-laddiad yn unig, nid am ddamweiniau.

Cyhuddwyd Mary Millington o ddirmygu'r llys pan ddywedodd yn ei diweddglo iddi gael ei distewi a'i chyfyngu beunydd gan y llys a oedd yn "cynllwynio gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn a Hunting Brae i gadw pethau ynghudd drwy wrthod clywed tystiolaeth y gellir ei dilysu." Neilltuwyd y dyfarniad ar eu hapel i ddyddiad amhenodedig.

Dywed y menywod yr ânt â'u hachos i'r Uchel Lys, os bydd rhaid. Ped enillent, byddai ymhlygiadau pwysig iawn i nod Prosiect Llys y Byd o gael arfau niwclear wedi eu dyfarnu'n anghyfreithlon. Beth bynnag a ddigwydd, mae eu gweithredoedd yn parhau i alw sylw at y ffaith bod Prydain yn dal i gynhyrchu a chynnal a chadw arfau niwclear.

- *Mae'r menywod hyn yn haeddu ein cefnogaeth. Danfonwch gyfraniadau i helpu gyda'r costau neu lythyron cefnogol at: Mary Millington, 37 Woodville Road, Caerdydd CF2 4DW. Mae mwy o wybodaeth ar gael gan Myra Eastland hefyd: (01222) 864793*



## "Torri'r Cylch Anfad"

**Cynhadledd Breswyl, 28-30 Mawrth 1996, Coleg Prifysgol Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan**

Gwahoddir pob grwp ac unigolyn sydd â diddordeb i fynychu'r gynhadledd hon a drefnir gan Gymdeithas y Cymod yng Nghymru. Y brif siaradwraig fydd Hildegard Goss-Mayr, Llywydd Anrhydeddus Cymdeithas y Cymod, ac arweinydd mawr ei phrofiad ym maes gweithredu di-drais.

Rhyfel parhaus fu hanes ein byd. Yn ein hoes ni, a'i darganfyddiadau mawr mewn technoleg, mae'r trais wedi mynd yn annioddefol ac yn warth ar ein dynoliaeth. Rhaid torri'r cylch anfad o drais sydd yn magu trais pellach. Dyma'r union adeg i wneud hynny. Collodd rhyfel bob hygrededd ac, yn gynyddol, mewn cylchoedd crefyddol a seciwlar, clywir lleisiau'n dadlau o blaid diwylliant di-drais.

Rhaid i ni sicrhau bod Cymru'n rhan o'r mudiad hwn ac yn cyfrannu yn ei dull dihafal ei hun iddo.

Gobeithio y bydd y gynhadledd hon a'r ymgynghori o flaen llaw yn lawnsio agenda newydd o weithredu di-drais i'n cario ymlaen i'r 21ain ganrif.

Nodwch y dyddiad nawr, a rhowch flaenoriaeth iddo.

- *Am fwy o wybodaeth am y Gynhadledd neu awgrymiadau a chynigion o gymorth, cysyllter â: Nia Rhosier, Cymdeithas y Cymod yng Nghymru, Tŷ Hen Gapel John Hughes, Pont Robert, Meifod, Maldwyn, Powys SY22 6JA. Tel: (01938) 500631*


## *Mae'r Nadolig yn Nesáu!*


**Cardiau Nadolig dwyieithog ar gael gan Masnachu CND Cymru: 01792 830330**



6 o gardiau
(2 cynllun, glas ar wyn)
yn cynnwys y cyfarchaid
**Tangnefedd ar y ddaear/ Peace on Earth**



6 o gardiau
(1 cynllun, dau lliw ar wyn)
yn cynnwys y cyfarchaid
**Tangnefedd ar y ddaear/ Peace on Earth**



6 o gardiau
(3 cynllun, dau lliw ar wyn)
yn cynnwys y cyfarchaid
**Cyfarchion y Tymor/ Seasons Greetings**

**Pris £1.30 y pecyn neu unrhyw bum pecyn am £5.50.**

Rhoddion i lenwi hosan, newydd oddi wrth Masnachu CND Cymru: Pin ysgrifennu – môr-lun gyda dolffin a'r geiriau "Awyr, Tir a Môr Di-niwclear". £1.10 yn cynnwys cludiant. Am eistemau pellach, yn cynnwys sticeri, bathodynnau a gemwaith, gweler ein catalog. Os nad oes gennych ein catalog diweddaraf, neu os carech brynu rhai o'r eitemau uchod, cysyllter â Masnachu CND.


## Prosiect Llys y Byd

Aeth Pat a Kevin Craig o Sir Benfro, sydd yn aelodau o "Gweithredu Meddygol dros Ddiogelwch y Byd", i Gynhadledd Adolygu'r Cytundeb Atal Lledaenu yn Efrog Newydd yng nghwmni dwsin o weithredwyr dros Brosiect Llys y Byd (PLB) o wledydd Prydain. Meddai Pat:

"Pwysodd tîm PLB ar bron 50 o wledydd y credent, os cefnogid hwynt, y byddent yn fodlon gosod tystiolaeth gyfreithiol wrth-niwclear bellach ger bron y Llys erbyn Mehefin 20fed. Ymwelwyd yn bersonol â'r holl lysgenadaethau hyn yn Llundain. Bydd y Llys yn derbyn sylwadau hyd at ddiwedd mis Medi, a bydd gwrandawiad llafar yn y Llys am dair wythnos o ddiwedd mis Hydref, gyda phosibilrwydd y ceir dyfarniad ddiwedd 1995. Maent yn clywed cais WHO ac UNGA ar yr un pryd, ond nid ydynt yn eu trin fel un achos.

**#WEITHREDU**
*Dylai unrhywun sydd am helpu Prosiect Llys y Byd nad yw eisoes ar restr bost PLB gysylltu â George Farebrother, 67 Summerheath Road, Hailsham, Sussex BN27 3DR, ffôn/ffacs (01323) 844269.*

Mae Michael Mansfield QC wedi dweud wrthym mai'r rheswm yr unionir aflwyddiannau cyfiawnder yw pwysau barn gyhoeddus. Rhaid i ni bara i ganolbwyntio barn y cyhoedd ar y gwrandawiad yn Llys y Byd.

# DYDDIADAU DYDDIADUR

## HAF 1995

**Byddwn yn falch o gynnwys unrhyw gyfraniadau i'r dyddiadur hwn gan fudiadau eraill o'r un tueddfryd sydd yn gweithio dros heddwch a chyfiawnder amgylcheddol yng Nghymru.**

**Mehefin 8** Dydd Moroedd y Byd i wneud pobl yn fwy ymwybodol o bwysigrwydd a bregusrwydd ein moroedd a'r hyn sy'n effeithio arnynt. *Cysyllter â Chyfeillion Bae Ceredigion am weithgareddau (01970 828026)*

**Mehefin 20** Llys y Byd yn cychwyn Yr Achos Niwclear – nid yw'n rhy hwyr i gasglu mwy o ddatganiadau. *Cysyllter â Phrosiect Llys y Byd (01323 844269) – tan fis Medi o leiaf!*

**Mehefin 24-25** 11eg Cynhadledd ar Ymbelydredd Lefel isel a Iechyd, County Hotel, Carlisle – *mwy o wybodaeth: 01229 833851*

**Mehefin 29-Gorffennaf 9** Taith gerdded Ray, Wendy, Tad a Newt dros Blant Chernobyl a Môr Iwerddon Di-niwclear (gweler y stori). *Am fanylion pellach, cysyllter â Ray Davies (gweler rhestr gyswllt)*

**Gorffennaf 1** Diwrnod Cylchfeydd Di-niwclear y Byd

**Gorffennaf 15** 11.00am Cyfarfod Blynyddol CND Cymru, Tŷ Cwrdd y Cyfeillion, Llandrindod, Powys. Croeso i aelodau a chynrychiolwyr mudiadau cysylltiedig. *Am fwy o wybodaeth, cysyllter â'r Ysgrifennydd Cyffredinol (gweler rhestr gyswllt)*

**Gorffennaf 16** Taith Gerdded Tibet. Helpwch i godi arian a chadw Tibet ar yr agenda ryngwladol. Teithiau cerdded ledled Prydain. *Am rai Cymru cysyllter â: Mynydd Du/ Bannau Brycheiniog – Richard Greaves (01497 847418); Ceredigion – Ali Jones (01239 79604)*

**Gorffennaf 16** (Dydd Sul) Rali yn Sgwâr Trafalgar "Mae'n Bryd i Fyd Di-Niwclear" (gweler y stori). *Mwy o wybodaeth: 0171 700 2393*

**Gorffennaf 22-25** Gŵyl Heddwch Morgannwg – dechrau ar yr 22ain gydag adloniant stryd ger Carafan y Siop Heddwch yn yr Ais, Caerdydd. *Am fanylion pellach am ddigwyddiadau eraill, ffoniwch Matt Holloway (01222 599623)*

**Awst 5** Penblwydd Hapus 70 oddi wrth CND Cymru i Bobl y Coed. *Mwy o wybodaeth am y dathliadau gan John Gurr (01974 282437)*

**Awst 5-13** Stondin CND Cymru yn yr Eisteddfod Genedlaethol, Bae Colwyn – angen cymorth a llety

**Awst 5** CND Abertawe. Plannu coed i Goffau Hanner Canmlwyddiant Dechrau'r Oes Atomig. *Cysyllter ag CND Abertawe (01792 367807)*

**Awst 19/20** Stondin CND yng Ngŵyl Pontardawe. Galwch heibio i'n gweld. *Cysyllter â Masnachu CND am fwy o wybodaeth*



# Dyddiadur

**Parheir i drefnu protestiadau byr-fyfyr os bydd Profion Niwclear Ffrainc yn parhau - os hoffech gymryd rhan, cysylltwch â George Crabb (01446) 774452 neu Jill Stallard (01550) 750260, os gwelwch yn dda. Pan gyhoeddir y newyddion am brawf arall, bydd gwylnos y tu allan i Gastell Caerdydd, wrth gerflun Aneurin Bevan.**

**Hydref 5** Ambiwlans Prosiect Plant Chernobyl Cymru, yn cludo moddion ac offer meddygol, yn cychwyn o Gymru ar ei daith 3,000 milltir i Dde Belarus lle'i gadewir mewn ysbyty ger Gomel.

**Hydref 24** 'Diwygio'r Cenhedloedd Unedig' - cynhadledd fin-nos a drefnwyd gan CCU Caerdydd, 7.30 pm yn y Deml Heddwch, Parc Cathays, Caerdydd. Beth sy'n bod ar y CU a sut ellir newid y mudiad i gwrdd â her 'Annhrefn Newydd y Byd'? *Am wybodaeth bellach, cysyllter â CCU - (01222) 228549*

**Hydref 27** 'Y Cenhedloedd Unedig a Thu Hwnt' Darlith Flynyddol Y Ganolfan Gymreig ar gyfer Materion Rhyngwladol - Alexander Borg Oliver o Ganolfan Hysbysrwydd y Cenhedloedd Unedig. *Cysyllter â Sue Kavanagh (01222) 228549*

**Canol Hydref** Dau gyfarfod cyhoeddus am Awyrennau Hawk - RAF Y Fali - ac Indonesia. Cysyllter â: (01407) 710386 a (01766) 771100

**Tachwedd 11** Penwythnos o Weithredu: Rali Atal Awyrennau Hawk yn RAF Y Fali. Cysylltiadau - gweler uchod. Bydd gweithredu ar safleoedd BAE ledled gwledydd Prydain hefyd.

**Tachwedd 25** Drwy'r dydd. Ffair Ryngwladol CCU Caerdydd, i godi arian a chynyddu ymwybyddiaeth, Y Deml Heddwch - diddorol a chyfleus am siopa Nadolig. *Cysyllter â Sue Kavanagh (01222) 228549*

**Tachwedd 25/26** Cynhadledd CND Prydeinig yn Neuadd y Dref, Manceinion. *Cysyllter â Linda Walker (0161) 834 8176*

**Rhagfyr 7** Atal Awyrennau Hawk yn y Fali - Lobi Seneddol. *Cysyllter â (01407) 710386 neu (01766) 771100*

**Rhagfyr 9** Cyngor - Cyfarfod Rheolaidd CND Cymru. 11.00am Tŷ Cwrdd y Cyfeillion, Heol y Drindod, Llandrindod, Powys. *Cysyllter â Jill Stallard am fanylion a/ neu bosibiliadau rhannu ceir.*

**Rwyf eisiau ymuno â'r Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwclear**

Enw ______________________________

Cyfeiriad ______________________________

______________________________

______________________________ Côd Post __________

Ffôn ____________________ Amgaeaf siec/GP am ______

yn daladwy i CND Cymru. Cwpl £15; Oedolyn £10; Digyflog, pensiynwyr, ieuenctid £3. Dychweler i CND Cymru, Aelodaeth, 3 Millbrook Court, Magwyr, Gwent NP6 3JN.




# Dim rhagor o brofion niwclear Ffrengig !

## Gorymdaith a Rali

Cwrdd: 10.30 o.g. ym Mariner St
(gyferbyn â'r Orsaf Drên Abertawe)
**Dydd Sadwrn,**
**14 Hydref 1995**

Trefnwyd gan C.N.D. Abertawe
Manylion pellach 01792 - 830330